



Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant Sir Ddinbych Cynllun Grant Bach

1) Pwrpas y Grant Datblygu Gofal Plant

Dyluniwyd y grant hwn i gefnogi pob lleoliad sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) ac sy'n darparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru i blant 3 a 4 oed neu sy'n bwriadu cynnig lleoedd, yn gymwys i wneud cais.

Mae hyn yn cynnwys gofalwyr plant, darparwyr sector preifat a gwirfoddol, a lleoliadau a gynhelir sy'n cynnig gofal dydd, gofal cofleidiol, cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau, ac ati. Gellir ystyried ceisiadau gan ddarparwyr gofal plant sydd yn y broses o wneud cais i gofrestru hefyd; bydd angen i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon bod y darparwr wir yn y broses o wneud y cais i CIW.

Dylid gwneud pob cais i Awdurdod Lleol ardal cyfeiriad cofrestredig y lleoliad; nid oes modd i ddarparwr wneud cais i sawl Awdurdod Lleol hyd yn oed oes ydynt yn derbyn plant o sawl ardal Awdurdod Lleol. Felly, er enghraifft, os yw cyfeiriad lleoliad cofrestredig yn ardal Sir Ddinbych, i Gyngor Sir Ddinbych yn unig y gall wneud cais, er ei fod yn derbyn plant o Gonwy neu Sir y Fflint. Os oes gan darparwr mwy nag un lleoliad cofrestredig, yna mae Awdurdod y cais yn seiliedig ar gyfeiriad pob un ac mae'r terfyn ariannol yn gymwys i bob un hefyd.

2) Gwneud cais

Wrth wneud cais, mae'n rhaid i ddarparwr:

- Allu dangos bod galw am ofal plant;
- Cofrestru gyda'r CIW neu yn achos darparwyr newydd, rhoi addewid ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gyda'r CIW cyn gynted â phosib;
- Cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol i ddarparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant neu roi addewid ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol;
- Gallu dangos diogelwch deiliadaeth am leiafswm o 5 mlynedd;
- Bod yn barod i ymrwymo i gynnig lleoedd gyda'r Cynnig Gofal Plant am leiafswm o 5 mlynedd o ddyddiad y taliad grant terfynol a chydabod os bydd yn stopio darparu lleoedd gyda'r Cynnig Gofal Plant neu'n derbyn plant sy'n talu ffi dros y rheiny sy'n derbyn y Cynnig, yna bydd angen iddynt ad-dalu'r nawdd grant a dalwyd yn llawn neu'n rhannol.
- Bod yn gallu darparu lleoedd gofal plant ychwanegol o ganlyniad i'r buddsoddiad neu bydd ansawdd y lleoedd gofal plant yn gwella
- Cydnabod y buddsoddiad y maent wedi eu derbyn mewn unrhyw ddeunydd marchnata i rieni

3) Rhoddir ystyriaeth hefyd

I'r canlynol yn enwedig os yw'r grant yn orlawn:

- Mae'r darparwr yn aelod o sefydliad ambarél gofal plant megis Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, Mudiad Meithrin, Y Blynnyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru, *Kids Clubs*, PACEY Cymru.
- Gellir darparu'r Cynnig Gofal Plant yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol er mwyn darparu'r 48 wythnos lawn y mae gan blant hawl iddynt neu os yw'n hyfyw i'r lleoliad ddarparu gwasanaethau gwyliau.
- Maent yn hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant (gan ddefnyddio'r brandio priodol) drwy'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill o hysbysebu.



4) Telerau ac Amodau

Bydd disgwyl i bob darparwr sy'n derbyn nawdd gan y Cynllun Grantiau Bach gynnig y cynnig yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig (mae e-bost yn dderbyniol), mae'n rhaid iddynt gofrestru i'r telerau ac amodau sydd wedi'u hatodi i'r grant.

- Mae'r nawdd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid cydnabod hyn mewn unrhyw lenyddiaeth megis newyddlenni a roddir i rieni, a dylid defnyddio brandio'r Cynnig Gofal Plant;
- Drwy dderbyn y cynnig hwn o nawdd, mae'r ymgeisydd yn cytuno i ddarparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant am leiafswm o 5 mlynedd o ddyddiad talu'r nawdd grant.
- Os yw'r ymgeisydd yn methu derbyn plant sy'n cael eu noddi drwy'r Cynnig, yna byddant yn agored i ad-dalu'r nawdd a dalwyd i gyd neu'n rhannol. Ni fydd hyn yn gymwys os yw'r ymgeisydd yn gallu dangos yn glir y byddai ef / hi'n croesawu plant dan y Cynnig, ond nad oes defnydd na chymhwysedd.
- Mae'n rhaid gwario'r arian ar yr eitemau hynny sy'n gymwys ar gyfer nawdd, os nad oes tystiolaeth bod unrhyw ran o'r nawdd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer eitemau anghymwys, yna bydd angen i'r ymgeisydd ad-dalu'r swm hwnnw;
- Gall darparwr wneud cais am nawdd ar gyfer yr un lleoliad sawl gwaith mewn blwyddyn ariannol, os yw'r cyfanswm a ddyfernir i un lleoliad unigol ddim mwy na £10,000 yn y flwyddyn honno.
- Bydd angen cadw derbynebau / anfonebau ar gyfer pob gwariant a'u dychwelyd gyda ffurflen fonitro cyn diwedd y flwyddyn ariannol
- Mae gan Addysg y Blynyddoedd Cynnar Sir Ddinbych a Thimau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hawl i gynnal ymweliad monitro i sicrhau bod arian y grant yn cael ei wario fel y nodir ar y ffurflen gais wreiddiol.

5) Beth ellir ei noddi

Gall nawdd grant ei ddyfarnu i leoliadau i'w galluogi i gynyddu'r nifer o leoedd maent yn eu cynnig i gynnig neu wella ansawdd y cyfleusterau maent yn eu darparu. Byddwn yn disgwyl i'r uchafswm ar gael i unrhyw un lleoliad mewn unrhyw flwyddyn ariannol i fod fel yr isod, fodd bynnag gall yr Awdurdod Lleol ddefnyddio ei ddyfarniad i gynnig uchafswm o £10,000 os oes amgylchiadau eithriadol.

Gofalwyr plant a'r rheiny a gofrestrwyd am 8 neu lai	Hyd at £5,000
Darparwyr gofal plant a gofrestrwyd ar gyfer rhwng 9 a 15 lle	Hyd at £7,500
Darparwyr gofal plant a gofrestrwyd ar gyfer 16 + o leoedd	Hyd at £10,000

Gall nawdd ei gynnig ar gyfer gwaith cyfalaf amrywiol sydd efallai'n angenrheidiol, megis:

- Gwaith ailwampio cyffredinol, gan gynnwys peintio, gosod carpedi newydd, ac ati;
- Gwellu cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, megis rhoi arwyneb chwarae newydd tu allan neu ddarparu canopi;
- Disodli / atgyweirio gosodiadau a ffitiadau megis toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestru, drysau, ac ati;



- Disodli offer sydd wedi gwisgo / dodrefn / teganau a allai achosi perygl iechyd a diogelwch. Felly er enghraifft, ffrâm ddringo wedi rhydu, dodrefn sydd wedi torri neu wedi gwisgo, a allai achosi fflawiau (splinters); neu fwrdd newid blêr sydd wedi'i or-ddefnyddio, nad ellir ei lanhau'n lanwaith;
 - Offer TG os gellir profi'n glir bod angen amdano er mwyn darparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant, gall hyn gynnwys gliniaduron, argraffwyr, ac ati;
 - Addasiadau i'r lleoliad i wella mynediad, ac ati; a
-
- Darpariaeth offer / dodrefn pwrpasol a fyddai'n galluogi darparwr i letya plentyn gydag anghenion dysgu ychwanegol.
 - Prynu offer a fyddai'n galluogi'r lleoliad i letya plant 3 a 4 oed; a
 - Tuag at brynu bws mini a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gludo plant rhwng elfennau gofal plant ac addysg y Cynnig. Nid yw costau prydlesu yn gymwys ar gyfer y nawdd, nac ychwaith costau rhedeg megis yswiriant, petrol, gwasanaethu, ac ati.

6) Beth nad ellir ei noddi

Mae'r nawdd grant ar gyfer prynu nwyddau cyfalaf yn unig, yn benodol rhywbeth gyda gwerth adwerthu neu'n gwella gwerth yr eiddo. Nid ellir ei ddefnyddio i noddi:

- Prynu defnyddiau traul, megis papur, deunyddiau glanhau, cewynnau, ac ati;
- Costau staffio megis cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;
- Biliau cyfleustodau megis nwy, trydan, cyfraddau;
- Darpariaeth WiFi;
- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeiladu, yswiriant atebolrwydd cyflogwyr, ac ati.

7) Canllaw ar gyfer ceisiadau grant gan ofalwyr plant

Oherwydd bod gofalwyr plant yn gweithio ar safle domestig, mae'r canllaw ar gyfer ceisiadau ar gyfer Nawdd Cyfalaf yn wahanol. Gall nawdd ei gynnig ar gyfer gwaith cyfalaf amrywiol sydd efallai'n angenrheidiol, megis:

- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, megis rhoi arwyneb chwarae newydd tu allan neu ddarparu canopi;
- Disodli offer sydd wedi gwisgo / dodrefn / teganau a allai achosi perygl iechyd a diogelwch. Felly er enghraifft, ffrâm ddringo wedi rhydu, dodrefn sydd wedi torri neu wedi gwisgo, a allai achosi fflawiau (splinters); neu fwrdd newid blêr sydd wedi'i or-ddefnyddio, nad ellir ei lanhau'n lanwaith;
- Offer TG os gellir profi'n glir bod angen amdano er mwyn darparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant, gall hyn gynnwys gliniaduron, argraffwyr, ac ati;
- Addasiadau i'r lleoliad i wella mynediad, ac ati;
- Darpariaeth offer / dodrefn pwrpasol a fyddai'n galluogi darparwr i letya plentyn gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'n rhaid i ofalwyr plant ddangos tystiolaeth glir o'r angen a sut gall hyn fod o fudd i'r lleoliad gofal plant a'r plant yn eu gofal o wybod eu nod yn gweithio ar eiddo domestig.

Mae'r nawdd grant ar gyfer prynu nwyddau cyfalaf yn unig, yn benodol rhywbeth gyda gwerth adwerthu. Mewn lleoliad gofal plant, nid ellir ei ddefnyddio i noddi:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



- Prynu defnyddiau traul, megis papur, deunyddiau glanhau, cewynnau, ac ati;
- Costau staffio megis cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;
- Biliau cyfleustodau megis nwy, trydan, cyfraddau;
- Darpariaeth WiFi;
- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeiladu, yswiriant atebolrwydd cyflogwyr, ac ati.
- Gwaith ailwampio cyffredinol, gan gynnwys peintio, gosod carpedi newydd, ac ati;
- Disodli / atgyweirio gosodiadau a ffitiadau megis toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestru, drysau, ac ati;

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr; os oes unrhyw amheuaeth a yw eitem yn gymwys ai peidio, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd childcareoffer@denbighshire.gov.uk 01745 815891